2150



# GWIALEN FEDW FY MAM.

---

TON—"*Old Darby.*"

---

PAN byddai euogrwydd cydwybod
  Bron llethu fy enaid i'r llawr
Ar ol im' gyflawni rhyw bechod
  Gyfrifwn pryd hyny yn fawr;
Fe dreiglai y dagrau tryloywon,
  Nid ofnaf ddywedyd pa ham
'Roedd cwmwl ar wyneb mor dirion—
  Ond ofn gwialen fedw fy mam.

Wrth ddyfod o'r ysgol ar redeg,
  Llawn awydd bod gartref mewn pryd,
Tarawai fy nhroed wrth ryw gareg,
  A syrthiwn i'r baw ar fy hyd!
Awn yna i dai fy nghydnabod,
  I draethu fy nghyni a'm cam,
A'm harswyd rhag ofn cael fy ngosod
  Dan bwys gwialen fedw fy mam.

Pan gawn i y fraint o gyd-fwyta
  Ar unwaith a nhad wrth y bwrdd,

Achoswn ryw ddamwain ysmala,
  Ac yna mi redwn i ffwrdd ;
Fe waeddai fy nhad arnaf—Aros,
  Gan addaw amddiffyn fy ngham :
Ond diangc oedd lawer mwy diddos,
  O ffordd gwialen fedw fy mam.

Bwriedais, rai canoedd o weithiau,
  Ei thaflu i ganol y tân :
Ond er fy holl gywrain gynlluniau,
  Mi fethais ei chyraedd yn lân
Gosodwn y gadair yn hwylus
  I gyraedd fy nod yn ddi nam,
Ond ofer fu'm triciau direidus
  I ddwyn gwialen fedw fy mam.

Pan byddai cyfoedion yn ceisio
  Fy hudo i wneuthur rhyw ddrwg,
A minau bron iawn a chydsynio,
  Rhag ofn i mi dynu eu gwg :
Fe redai fy meddwl yn sydyn
  At gerydd, cyn rhoddi y llam,
Ac felly gwrthodwn eu dylyn,
  Rhag ofn gwialen fedw fy mam

Wel, tegwch i mi ydyw canmol
  Pob moddion arferwyd er lles,
A thaflu o'r neilldu yn hollol
  Bob rhagfarn, a dyfod yn nes;
Can's teimlo mae f'enaid ryw awydd
  Roi moliant i bob moddion am
Fy nghadw ar lwybrau dyledswydd,
  Fel gwnaeth gwialen fedw fy mam.

BRITWN

# CWYN YR AMDDIFAD.

TON—"*Trymder.*"

DAN gangau'r ywen, wylo'r wyf,
Ar feddrod oer;
Fan hyn yn gwywo gan fy nghlwyf,
Wrth oleu'r lloer;
Nid oes im' gysur ar fy hynt,
Fel brofais yn yr amser gynt,—
Ond ocheneidio gyd a'r gwynt
Raid imi'n awr:
O dan y tyweirch gwlybion hyn
Mae mam a nhad gan angeu'n dyn;
A mi'n amddifad, olwg syn,
Yn llwm ar lawr!

O! feddrod llaith, mae ynot ti
Ddedwyddwch f'oes;
Gorchuddiaist fy ngobeithion i,—
'Rwy'n teimlo'r loes
Ni chlywaf mwyach lais fy mam
Yn canu'n beraidd a di nam
Na cherydd tad, er gochel cam—
Maent yn y bedd!
Pwy, pwy a'm gwylia, fel gwnaent hwy?
Pwy sych fy nagrau, leddfa 'nghlwy?
Neb! neb! amddifad fyddaf mwy,
A thrist fy ngwedd.

Na sonier mwyach wrthyf fi
Am gyfoeth drud;
Nac am bleserau mawr eu bri
Ar hyd y byd;
Pe cawn i holl drysorau'r wlad,
Dyddanwch daear yn ddi wâd,
Beth ydynt oll, heb fam na thad?
Dim, dim i mi!
Try hiraeth dwys holl bethau'r llawr
Yn ddiwerth hollol imi'n awr!
Unigrwydd sydd yn duo 'ngwawr,
A deffro'm cri.

With gofio'r amser anwyl gynt
Dwys wylo'r wyf;
Ac ocheneidio ar fy hynt,
Gan faint fy nghlwyf;
Mae ereill o fy amgylch i
Yn meddu cartref heb un cri,
A rhiaint tyner, mawr eu bri,
A chwaer a brawd—
Ond wele fi heb unrhyw le
Yn gartref mwyach dan y ne,'
Na thad na mam, na noddfa gre'—
Yn llwm a thlawd!

Bum inau'n ddedwydd dro yn ol,
Ar aelwyd glyd;
Mewn bwthyn bychan ar y ddôl,
Gwyn oedd ein byd;
O! fel y canai'm mam mor fwyn
Er fy nifyru gyda'i swyn,
A minau'n iach heb unrhyw gwyn,
Yn swn ei cherdd:
Ond darfu cân fy mam i mi,
A'm cartref hoff, pan gollais hi,
Ac ar ei bedd mae'm dagrau'n lli',
Dan ywen werdd!

O! cladder finau yn ei bedd,
Yn medd fy mam:
Caf yma orphwys mwy mewn hedd,
O gyraedd cam;
Yn mrig yr ywen boed y gwynt,
Yn seinio galar gerdd ar hynt
Er côf am rai fu'n ddedwydd gynt,
Yn deulu cun;
Cysgoda dithau, ywen ir,
Y beddrod hwn am amser hir—
Hyn ydyw fy nymuniad gwir,
Amddifad un!

IORWERTH GLAN ALED.

---

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.*